# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni 2012/2013

YSGOL GYMRAEG SANT CURIG











YSGOL GYMRAEG SANT CURIG

Tyfun ar ein Taith

Ysgol Sant Curig, Heol Y Coleg, Y Barri,
Bro Morgannwg. CF62 8HQ
Ffon: 01446 744222 • Ffacs: 01446 421211

Eco-Sgolion ACTIVE MARC CYMRU INVESTOR IN PEOPLE

YSantCurig@valeofglamorgan.gov.uk
www.ysgolgymraegsantcurig.com

# Adroddiad Blynyddol y Corff Llywodraethu i Rieni 2012/2013

## Annwyl Riant

**Yn unol â Deddf Addysg (Rhif 2 1986) mae'n rhaid i ni fel Corff Llywodraethu gyflwyno adroddiad blynyddol i rieni, sydd yn amlinellu ein gwaith a'n gweithgareddau. Nid yw hi'n ofynnol mwyach i gynnal cyfarfod agored i drafod yr adroddiad, ond os ydych yn dymuno gwneud, yna cysylltwch â swyddfa'r Ysgol i drafod ymhellach.**



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyfarchiad y Cadeirydd | 2 |
| Cynnydd a Datblygiadau diweddaraf Cynllun Datblygu'r Ysgol | 2 |
| Blaenoriaethau 13/14 | 3 |
| Bwrdd y Llywodraethwyr | 4 |
| Pwy yw Pwy? | 4 |
| Elusennau | 5 |
| Digwyddiadau a Champau/Chwaraeon | 5 |
| Bwyta'n Iach | 6 |
| Datblygiad Cwricwlwm | 6 |
| Trefn Dosbarthiadau/Sesiynau Ysgol | 7 |
| Polisiau | 7 |
| Presenoldeb 2012/2013 | 7 |
| Canlyniadau 2012/2013 | 7 |
| Cyllideb yr Ysgol | 8 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 9 |
| Addysg Uwchradd | 9 |
| Cysylltiad a'r Gymuned | 9 |
| Cymdeithas Rhieni ac Athrawon | 9 |
| Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2013/2014 | 10 |
| Adeilad yr Ysgol | 10 |

## Adroddiad y Cadeirydd

*Annwyl Riant*

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys llawer o wybodaeth ystategol am yr Ysgol, ond nid hynny yw'r holl stori'n llawn. Rydym yn hynod falch o ganlyniadau CA1 a CA2 sy'n dangos datblygiad y dysgwyr yn mlynyddoedd 2 a 6, a hefyd y datblygiad a gyrhaeddwyd gan y dysgwyr ar draws yr Ysgol gyfan, lle mae ein systemau tracio yn amlwg yn gweithredu'n effeithiol.

Edrychaf yn ôl ar fy amser i yn yr Ysgol gynradd ac ni allaf lan a theimlo'n eiddigeddus am yr holl gyfleoedd a gaiff ein plant heddiw. Mae'r ystod eang o weithgareddau a brofir ganddynt yn wir, yn sylweddol. Mae'r cyfleoedd hyn ar gael yn unig drwy waith caled cyson holl staff yr Ysgol, a dymunaf yn gyhoeddus ddiolch iddynt am yr hyn a wnânt at ddatblygiad ein plant, yn gyson, yn mynd y filltir ychwanegol yna.

*Andrew Humphreys*

Cadeirydd

## Cynnydd a datblygiadau diweddaraf Cynllun Datblygu'r Ysgol

- Datblygwyd ymhellach y defnydd o 'Big Writing' a 'Geirio Gwych' ar draws yr Ysgol.
- Gwelwyd gwelliant sylweddol mewn safonau ysgrifennu yn y ddwy iaith eto eleni. Codwyd safon ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd Cyfonod Allweddol 2 i 100% o'n disgyblion yn derbyn y lefel disgwyliedig neu'n uwch. Cynnydd o 19% mewn ysgrifennu Cymraeg a 14% mewn ysgrifennu Saesneg.
- Gwelwyd gwelliant sylweddol eto eleni mewn safonau darllen ar draws yr Ysgol. Llwyddodd 100% o'n disgyblion gyrraedd lefel 4 neu'n uwch yn y ddwy iaith. Cynnydd o 16% mewn darllen Cymraeg ac 14% mewn darllen Saesneg.
- Lluniwyd cynllun i wella safonau Rhifedd ein disgyblion yn enwedig mathemateg pen. Mae'r cynllun yn parhau eleni 2013/2014.
- Mae'r Ysgol wedi bod yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau cyfleuoedd i ddatblygu sgiliau Rhifedd a Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm. Bydd y gwaith mapio yn parhau yn ystod 2013/2014.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ein darpariaeth ar gyfer disgyblion Abl a Thalentog.
- Cyflwynwyd cynlluniau Ffoneg i addysgu sillafu yn y ddwy iaith a gwelwyd gwelliant mewn cyrhaeddiad ar draws yr Ysgol. Archebwyd cynllun Tric a Chlic er mwyn cefnogi'r datblygiad hwn.
- Cynhaliwyd hyfforddiant mewn swydd er mwyn sicrhau cysondeb mewn safoni gwaith ar draws yr Ysgol.
- Datblygwyd ymhellach ein defnydd o Werthoedd er mwyn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol ein disgyblion.
- Hyfforddwyd nifer o'n Cynorthwywyr ar gynllun ELSA.
- Defnyddiwyd NBAR i asesu holl ddisgyblion blynyddoedd 2 i 6 er mwyn targedu disgyblion ar gyfer cefnogaeth ELSA.
- Adolygwyd ac ail ysgrifennwyd ein cynllun Ymddygiad a systemau gwobrwyo.
- Datblygwyd ein defnydd o system dracio INCERTS. Erbyn hyn mae'n bosib tracio cynnydd pob disgybl ym mhob pwnc craidd, yn ogystal â hyn y plant hynny sy'n derbyn prydiau rhad a'r rhai sydd ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Mae ein cynllun i annog y defnydd o Gymraeg llafar ar draws yr Ysgol yn parhau i lwyddo gyda'n disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn amlach tu hwnt i furiau'r dosbarth.
- Sefydlwyd partneriaeth gydag ysgolion o wledydd Groeg, Yr Almaen, Sweden, Hwngari a Thwrci. Mae sawl aelod o staff yr Ysgol wedi ymweld ag ysgolion yng ngwledydd Twrci, Groeg a Sweden ac mae'n perthynas yn parhau.

## Digwyddiadau a Champau

- Cafodd tîm y 'Cwis LLyfrau' lwyddiant anhygoel eto eleni wth iddyn nhw gipio'r wobr gyntaf am y trydydd tro yn olynnol am ei cyflwyniad o lyfr Ganthrig Bwt y Wrach yn y gystadleuaeth Gymraeg Cyngor Llyfrau Cymru. Camp yn wir! Ymfalchiwn yn eu llwyddiant.
- Aeth nifer o'n hathrawon a chynorthwywyr i ymweld ag ysgolion partner yn Ewrop.Rydym wedi bod yn gweithio ers dwy flynedd gydag ysgolion o wledydd Groeg, Twrci, Hwngari, Sweden ar Almaen.
- Caswsom ymweliad gan grŵp o gantorion o Lydaw yn ystod yr Wyl Geltaidd a chawsom fore hapus yn eu cwmni.
- Bu'r Ysgol yn gweithio'n ddiwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn ennill y Marc Safon Ysgolion Iach. Wedi llwyddo cyrraedd Cam 5 Rhwydwaith Ysgolion Iach Bro Morgannwg y llynedd rydym yn gobeithio dathlu newyddion da cyn hir.
- Aeth disgyblion blwyddyn 5 i wersylla i Abernant a disgyblion blwyddyn 6 am wythnos i Langrannog.
- Ail-gylchwyd cardiau Nadolig eto eleni.
- Cymerodd yr Ysgol ran yng nghystadleuaeth addurno berfa yn Sioe Flodau Caerdydd.
- Cynhaliwyd wythnos gerdded i'r Ysgol.
- Cafodd disgyblion wersi seiclo yn ystod y flwyddyn
- Bu disgyblion blwyddyn 6 yn ffodus o gael defnyddio'r pwll nofio Cenedlaethol ar gyfer eu gwersi nofio ac yn ystod eu cwrs caswom y fraint o gwrdd ag Ellie Symmonds a threulio peth amser yn ei chwmni. Braint yn wir.
- Bu wythnos fusnes blwyddyn 6 yn un lwyddiannus eto eleni a gwnaed £370 o elw a ddefnyddiwyd i ariannu ymweldiad diwedd eu cyfnod yn yr ysgol i Fae Caerdydd.
- Aeth digyblion blynyddoedd 5 a 6 I Cheltenham I weld perfformiad o 'Goodnight Mr Tom' a chawsom y cyfle i holi'r actorion wedi'r sioe.
- Bu blwyddyn 4 yng Nghaerfaddon a Chaerleon i ddysgu mwy am fywyd y Rhufeiniaid.
- Bu disgbylion y dosbarthiadau Derbyn yng ngorsaf Dân y Barri ble cawson nhw gyflwyniadau gan yr Heddlu, Y Frigad Dân y Bad Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans.
- Cafodd Blwyddyn 2 ddiwrnod hapus yn dalthlu diwedd y flwyddyn ym Mharc Porthceri.
- Bu Blwyddyn 3 yn ymwled â Fferm/Sŵ Arch Noa ym Mryste.
- Cafodd plant bach y dosbarthiadau Meithrin ddiwrnod wrth eu boddau yn yr haul ar draeth Ynys y Barri ar ddiwedd y flwyddyn Ysgol.
- Ymwelodd y Cyfond Sylfaen i'r Neuadd Goffa i weld sioe 'Igam-Ogam'.
- Aeth Blwyddyn 1 i Lancaiach Fawr.
- Buom yn dathlu llwyddiant Sam Belby o'r dosbarth Derbyn wrth iddo glywed ei fod yn fuddugol yng nghystadleuaeth creu poster ar gyfer ymgyrch 'Design to Smile'.
- Cafodd disgyblion y dosbarthiadau Derbyn eu hyfforddi am ail-gylchu a chawsom ymweliad gan Adran Ail-Gylchu Bro Morgannwg.

## Blaenoriaethau 2012/2013 oedd...

- Datblygu ymhellach ein defnydd o Geiriau Gwych / Big Writing ar draws y Cwricwlwm.
- Codi safonnau rhifedd.
- Lles y disgybl – Asesiad NBAR.
- Ymddygiad ar draws yr Ysgol.
- Datblygu ymhellach ein defnydd o INCERTS i dracio cynnydd disgyblion.
- Gwella ardaloedd addysgu y dosbarthiadau Sylfaen.
- Parhau i ddatblygu ein perthynas gydag ysgolion Ewropeaidd - Comeniws.
- Parhau i ddatblygu ein darpariaeth ar gyfer ein disgyblion mwy Abl a Thalentog.



## Bwrdd y Llywodraethwyr

Mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am reoli'r ysgol yn effeithiol. Pedair mlynedd yw cyfnod swydd arferol Llywodraethwr ac mae cyfansoddiad y Corff Llywodraethu llawn i'w weld isod. Cynhaliwyd cyfarfodydd Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn gyda'r Corff Llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Ymgymerodd y Llywodraethwyr ag ystod o weithgareddau hyfforddi a datblygu gan gynnwys rheoli cyllid, iechyd a diogelwch, effeithiolrwydd egni, canllawiau gwrth fwlio, rheoli perfformiad, rheoli gwaharddiadau yn ogystal â mynychu'r Gynhadledd Flynyddol ar gyfer Llywodraethwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael am rôl y Corff Llywodraethu, cyfarfodydd hyfforddiant a datblygu a fynychwyd, a chofnodion y cyfarfodydd ar gael gan glerc ein Llywodraethwyr.

Trafodwyd amrywiaeth o agweddau gan gynnwys gweithgareddau Ysgol, cyllid Ysgol, nod ac amcanion yr Ysgol, adroddiadau'r Pennaeth a chynlluniau i ddatblygu'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Sgiliau newydd yng Nghyfnod Allweddol 2.Adolygwyd yn rheolaidd ddatblygiad y Cynllun Datblygu Ysgol a darparwyd diweddariad ohono gogyfer â phob cyfarfod.Ymwelodd y Llywodraethwyr â'r Ysgol ar wahanol achlysuron, i gyfarfod yn ffurfiol ac anffurfiol gyda'r staff.

## Corff Llywodraethu a Staff yr Ysgol 2012/2013

| Rôl y Llywodraethwyr | Enw |
|---|---|
| Cadeirydd | Mr A Humphreys |
| Is-gadeirydd | Mrs B Owen |
| Pennaeth | Mrs S Owen |
| Rhiant Lywodraethwyr | Mrs S Neale<br>Mrs N Branson<br>Mr M Hayward<br>Dr M Jones<br>Mr J Edwards<br>Mrs C Coombes |
| Cynrychiolwyr Awdurdod Addysg Lleol | Mr A Humphreys<br>Mr D Horgan<br>Mrs J Owen<br>Dr S Rh Williams<br>Mrs M Thomas |
| Cynrychiolwyr Staff | Mr R Jones<br>Mr A Williams<br>Mrs C Jones |
| Aelodau Cymunedol | Mrs A Jones<br>Mrs B Owen |
| Clerc i'r Llywodraethwyr | Mrs N Hallett |
| Prif Swyddog Addysg | Mrs J Hill |
| Pennaeth Ysgolion | Mrs L Jones |
| MAR | Miss C Curtis |

| Aelodau Staff 2012/2013 | | | |
|---|---|---|---|
| Pennaeth | Mrs S Owen | Staff Cynnal Dysgu | Mrs J Buckland<br>Mrs E Parry<br>Mrs C Jones<br>Miss C Pile<br>Miss S Jones<br>Mrs M Jones<br>Mrs M Isaac<br>Miss H Sparkes<br>Mrs R Lee<br>Mrs H Ruck<br>Mrs J Bowen<br>Mrs C Willicombe<br>Mrs M Incledon<br>Mrs S Humphreys<br>Miss L Richards<br>Miss J Martin<br>Mrs S Jenkins<br>Miss Rh Carter<br>Miss K Press<br>Mrs M Williams |
| Dirprwy Bennaeth | Mr R Jones | | |
| Athrawon | Miss H Gruffudd<br>Miss N Davies<br>Mr A Williams<br>Mr M McAvoy<br>Miss C Lewis<br>Mrs L Weighell<br>Miss E Connor<br>Miss A Withey<br>Mrs E Morrison<br>Mrs M Cross / Miss N Humphreys /<br>Miss C Hickin<br>Mrs D Jones / Mrs L Delve<br>Miss E Miles<br>Miss C Turley<br>Miss N Thomas<br>Miss S Jones<br>Miss H Saar<br>Mrs R Lloyd | | |
| Gweinyddes Ysgol Cynorthwydd Gweinyddol | Mrs N Hallett Miss C Paget | Pupil Support Staff | Mrs H Lewis<br>Mrs J Roach<br>Miss R Jones<br>Mr O Dalton<br>Mrs S Jones |
| Gofalwr | Mr P Byrne | Y Gegin | Mrs Chris Jones |
| Menywod Cinio | Mrs C Mason<br>Mrs H Ball<br>Ms K Rosser<br>Mrs W Ashdown<br>Mrs B Black | Athrawon Cerddoriaeth | Mr S Napper<br>Mr G Payne<br>Mrs E Henry<br>Mrs C Wood<br>Mrs J Preece |

## Digwyddiadau a Champau

Fel arfer cynhaliwyd nifer o weithgareddau gan gynnwys Clybiau wedi Ysgol (Yr Urdd, Coginio, Garddio, Rygbi, Traws Gwlad, Pêl Droed, Gymnasteg, Pêl Rwyd, Celf, Cyfrifiaduron, Darllen, Dawnsio, Sgiliau Pêl, Gwyddoniaeth, Cân Actol a Iaith), dathliadau Diolchgarwch, Gwasanaethau Nadolig, Pasg, Ewyllys Da ac Eisteddfod yr Urdd. Cafodd yr Ysgol nifer o lwyddiannau gan gynnwys disgyblion yn cyrraedd yr Eisteddfod Gylch a'r Sir. Anogwyd ein disgyblion eto yn ystod y flwyddyn i gerdded i'r Ysgol a chynhaliwyd wythnos Bws Cerdded i'r Ysgol. Hyfforddwyd ein disgyblion gan y Sir i fod yn swyddogion diogelwch y ffyrdd (JRSO).





Cymerwyd rhan mewn sawl cystadleuaeth chwaraeon y llynedd a bu ein disgyblion yn llwyddiannus mewn sawl maes. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys;

- Cystadleuaeth Rygbi'r Urdd
- Cystadleuaeth criced yr Urdd
- Cystadleuaeth nofio'r Urdd
- Cystadleuaeth pêl droed yr Urdd
- Cystadleuaeth pêl droed i ferched
- Tîm gymnasteg y bechgyn – Pencampwyr Tumble a Vault Caerdydd a'r Fro
- Tîm gymnasteg y merched – pedwerydd yng nghystadleuaeth Tumble a Vault Caerdydd a'r Fro
- Tri o fechgyn yr Ysgol yn aelodau o dîm Tumble a Vault y Fro a enillodd cystadleuaeth Tumble a Vault Cymru
- Blwyddyn 6 gwersi seiclo a nofio
- Mabolgampau Meithrin, Derbyn a blwyddyn 1 a 2 ar faes yr Ysgol
- Un o fechgyn blwyddyn 6 wedi ei ddewis i chwarae Rygbi I dîm y Sir
- Mabolgampau'r Adran Iau yng Nghanolfan Chwaraeon Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.

## Ennill yr "Active Mark"

Rydym yn ymfalchio yn y ffaith ein bod ni wedi llwyddo i ennill yr "Active Mark" am ein darpariaeth addysg gorfforol am yr eil dro yn olynnol. Cafodd yr Ysgol ganmoliaeth gan yr aseswr allanol a nodwyd meysydd o arfer rhagorol yn ein darpariaeth. Mae hyn yn glôd mawr i'r Ysgol.

## Cefnogwyd yr elusennau isod;

Comic Relief, Plant Mewn Angen, Marie Curie, Apêl y Pabi Coch ac Ysbyty Felindre a Banc bwyd y Fro.







## Cwricwlwm, Cofnodi ac Asesu

Prif iaith yr ysgol yw'r Gymraeg.Disgwyliwn i'r plant gyfathrebu yn y Gymraeg drwy'r amser heblaw mewn gwersi Saesneg. Dysgir pob gwers trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cydlynwyr yn gyfrifol am wahanol agweddau o'r cwricwlwm h.y. Mathemateg, Gwyddoniaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Celf a Chrefft, Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth, Technoleg, TG ac Addysg Grefyddol. Cyflwynir Saesneg yn bwnc ym Mlwyddyn 3.Astudir amryw o themâu o'r dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 gan sicrhau bod pob agwedd o'r cwricwlwm yn cael ei addysgu.Dysgir Addysg Ryw fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.Rydym hefyd yn defnyddio deunydd addysgu'r Cyngor Addysg Iechyd ar gyfer y plant hŷn. Os na chawn ein hysbysu'n wahanol gan rieni caiff Addysg Grefyddol ei addysgu mewn ffordd anenwadol gyda phob un yn mynychu gwasanaeth boreol. Fel rhan o'r cwricwlwm, caiff crefyddau eraill eu hastudio.

Asesir a thrafodir gwaith yn rheolaidd gan staff. Rydym yn trefnu nosweithiau agored dair gwaith y flwyddyn yn ystod Tymor yr Hydref, Gwanwyn a Thymor yr Haf i alluogi rhieni i drafod gwaith eu plentyn. Mae'r staff ar gael ar adegau eraill i gyfarfod â rhieni os oes angen.



## Bwyta'n Iach

Anogir ein disgyblion i fwyta'n iach ar bob achlysur. Mae'r Ysgol yn aelodau o Rwydwaith Ysgolion Iach Bro Morgannwg ac wedi derbyn clod am gyrraedd Cam 5. Byddwn yn ymgeisio am y Marc Safon Ysgolion Iach yn ystod 2013/2014. Caniateir i'n disgyblion yfed dŵr yn ystod gwersi er mwyn sicrhau nad ydynt yn sychedig. Caiff ein disgyblion Sylfaen y cyfle i brynu ffrwyth yn ddyddiol a rhoddir diod o laeth am ddim iddynt bob dydd. Ni chaniateir i'n disgyblion ddod a byr bryd melys, bwydydd llawn braster ac yn y blaen, yn ystod oriau Ysgol.



## Sesiynau Ysgol

| | | |
|---|---|---|
| Bore | 9.15 | -11.45 (Meithrin) |
| | 9.00 | -12.00 (Babanod) |
| | 9.00 | - 12.30 (Adran Iau) |
| Prynhawn | 12.45 | - 3.15pm (Meithrin) |
| | 13.20 | - 15.20 (Babanod |
| | 13.40 | - 15.20(Adran Iau) |

## Trefn Dosbarthiadau 2012/2013

| | |
|---|---|
| Meithrin | Mrs M Cross / Miss N Humphreys<br>Miss C Hickin |
| Derbyn | Miss H Saar<br>Mrs D Jones / Mrs L Delve |
| Blwyddyn 1 | Mrs E Morrison / Miss H Saar<br>Miss C Turley |
| Blwyddyn 2 | Miss A Withey / Miss N Thomas |
| Blwyddyn 3 | Miss S Jones / Mr A Williams |
| Blwyddyn 4 | Miss H Gruffudd<br>Mr Rh Jones / Miss E Miles |
| Blwyddyn 5 | Miss E Connor |
| Blwyddyn 5/6 | Miss N Davies |
| Blwyddyn 6 | Mr M McAvoy |

## Polisiau

Derbyniwyd y polisiau canlynol yn ystod y flwyddyn 2012/2013:

- Rhwydweithio Cymdeithasol
- Gweithdrefnau Cwyno
- Amgylcheddol
- Rheoli Perfformiad
- Masnach Deg
- Ymyriad Corfforol
- "Time Out" / Withdrawal Rooms
- Safer Recruitment
- Diogelu Plant
- Gwrth Fwlio
- Cynllun Cydraddoldeb
- Cytundeb Partneriaeth

## Blaenoriaethau 2013/2014

1. **Llythrennedd ar draws y Cwricwlwm**
2. **Rhifedd ar draws y Cwricwlwm**
3. **Lles – NBAR – Presenoldeb.**

## Is - flaenoriaethau

- Datblygu Tric a Chlic yn y dosbarthiadau Sylfaen
- Parhau i ddatblygu'r defnydd o INCERTS er mwyn tracio cynnydd disgyblion gan edrych yn benodol ar ein
- grwpiau megis FSM, ELSA, presenoldeb, meddygol a.y.y.b
- Gwella ardaloedd addysgu y dosbarthiadau Sylfaen

## Profion Diwedd Cyfnod



| | Targed | Ysgol | Cymru |
|---|---|---|---|
| **CYFNOD SYLFAEN** | | | |
| Datblygiad Personol a Chymdeithasol | 90% | 96% | 93% |
| Sgiliau Iaith | 87% | 93% | 87% |
| Datblygiad Mathemategol | 92% | 93% | 87.4% |
| Dangosydd y Cyfnod Sylfaen | | 93% | 83% |
| | | | |
| **CYFNOD ALLWEDDOL 2** | | | |
| Mathemateg | 97.5% | 100% | 87% |
| Gwyddoniaeth | 97.5% | 100% | 89% |
| Cymraeg | 90.2% | 100% | 84% |
| Saesneg | 90.2% | 100% | 85.2% |
| Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) | | 100% | 83% |



## Roedd canrannau ffigurau presenoldeb ar gyfer 2012/2013 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Presenoldeb | **93.0%** |
| Absenoldeb gyda chaniatâd | **6.9%** |
| Absenoldeb heb ganiatâd | **0.1%** |

*Byddwn yn parhau i fonitro ac annog presenoldeb disgyblion yn ofalus iawn ac mae'r Llywodraethwyr hefyd yn annog rhieni i beidio â chymryd gwyliau yn ystod y tymor. Rhoddwyd targed o 90% neu'n uwch l'n disgyblion ac rydym wedi cysylltu a rhieni sydd a phlant yn syrthio yn is na 90% o bresenoldeb yn ystod unrhyw hanner tymor.*

# Cyllideb yr Ysgol - 2012/2013

| Employees | School's budget 2012/2013 | Actual 2012/2013 |
|---|---|---|
| Teaching employees | 764,207.00 | 761,347.60 |
| Non teaching employees | 165,107.00 | 176,187.67 |
| Grant employees | 192,532.00 | 196,705.47 |
| Other direct employees | 1,755.00 | 2,641.67 |
| Indirect employees exps | 19,881.00 | 20,488.96 |
| Seg and weg employees | 0.00 | 6,591.29 |
| **TOTAL** | **1,143,482.00** | **1,163,962.66** |
| Internal recharges expend | 11,208.00 | 11,207.99 |
| **TOTAL** | **11,208.00** | **11,207.99** |
| **Premises** | | |
| Repair and maint of buildings | 65,508.00 | 61,209.63 |
| Energy | 19,000.00 | 18,563.74 |
| Water services | 5,770.00 | 5,769.92 |
| Cleaning and domestic supplies | 41,346.00 | 41,208.87 |
| Rates | 14,297.00 | 14,297.00 |
| Grounds maintenance | 1,600.00 | 1,534.40 |
| **TOTAL** | **147,521.00** | **142,583.56** |
| **Supplies & services** | | |
| Equip furniture & materials | 42,591.00 | 51,872.04 |
| Catering | 79.00 | -41.40 |
| Printing stationery/office exps | 14,183.00 | 14,269.48 |
| Comms and computing | 15,024.00 | 14,514.93 |
| Misc expenses | 51,965.00 | 22,441.25 |
| Services | 255.00 | 255.00 |
| Expenses | 0.00 | 0.00 |
| Seg and weg supplies and services | 0.00 | 10,744.99 |
| **TOTAL** | **124,097.00** | **114,056.29** |
| Intra departmental recharge | -3,159.00 | -24,735.76 |
| Seg and weg income | 0.00 | -4,952.79 |
| **TOTAL** | **-3,159.00** | **-29,688.55** |
| Internal recharges income | 0.00 | 0.00 |
| **TOTAL** | **0.00** | **0.00** |

| Transport | School's budget 2012/2013 | Actual 2012/2013 |
|---|---|---|
| Car allowances | 100.00 | 22.50 |
| Direct transport costs | 0.00 | 0.00 |
| Seg and weg travel expenses | 0.00 | 0.00 |
| **TOTAL** | **100.00** | **22.50** |
| **Customer receipts** | | |
| Charge for service | 0.00 | -3,979.58 |
| Donations | 0.00 | -6,482.00 |
| Rental income | 0.00 | -78.00 |
| Sale of products | 0.00 | 0.00 |
| **TOTAL** | **0.00** | **-10,539.58** |
| **Government grant** | | |
| Other government grants | 0.00 | -6,400.01 |
| Wag grants | -171,414.00 | -173,547.33 |
| **TOTAL** | **-171,414.00** | **-179,947.34** |
| **Other grants** | | |
| Income from other las/has | 0.00 | 0.00 |
| **TOTAL** | **0.00** | **0.00** |
| **Transfer from school investment** | | |
| School investments rev | 0.00 | 0.00 |
| **TOTAL** | **0.00** | **0.00** |
| **TOTALS** | **1,251,835.00** | **1,211,587.53** |

| School Investment Balances | |
|---|---|
| B/F Balance 1st April 2012 | 30171.37 |
| In Year Movement 2012/2013 | 98.17 |
| C/F Balance 31st March 2013 | 30,269.54 |
| Total B/F Balance 1st April '12 | 87841.55 |
| Total In Yr Movement 12/13 | -17324.36 |
| Total C/F Balance 31st March 2013 | 70,517.19 |

| Schools emp and misc balances | |
|---|---|
| B/F Balance 1st April 2012 | 57670.18 |
| In Year Movement 2012/2013 | -17422.53 |
| C/F Balance 31st March 2013 | 40,247.65 |

Mae'r Corff Llywodraethu yn monitro cyllideb yr ysgol ac rydym yn hapus i gyhoeddi ein bod wedi cadw o fewn y gyllideb yn 12/13.

## Cysylltiadau gyda'r Ysgol Gyfun

Mae gennym gysylltiadau ardderchog gydag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ac mae athrawon cyswllt o Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ymweld â'r ysgol yn ystod y flwyddyn i gwrdd â disgyblion a rhieni Blwyddyn 6 i'w cynorthwyo gyda'r pontio i'r ysgol uwchradd. Bu'r plant hefyd yn ymweld â'r Ysgol uwchradd ar amryw achlysur, yng nghyd-destun chwaraeon a digwyddiadau diwylliannol. Rydym yn gweithio ar y cyd gyda holl ysgolion Cymraeg y Fro ac YGBM i weithredu Cynllun Pontio Cynradd / Uwchradd.Cynhelir cyfarfodydd cyson er mwyn cyd-safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd er mwyn sicrhau cysondeb mewn safonau.

## Cysylltiadau gyda'r Gymuned

Mae'r Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Argyfwng megis yr Heddlu a'r Frigad Dân. Mae gennym raglen o ymwlediadau gyda'n Heddwraig Gymunedol sydd yn ymweld â phob dosbarth yn yr Ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd. Trafodir agweddau e.e. diogelwch ar y ffyrdd, gofal gyda dieithriaid yn ogystal chyffuriau a diogelwch ar y Wê. Rydym yn gwahodd gwasanaethau lleol megis yr Adran Ail-gylchu i weithio gyda'r plant.

Mae gennym gysylltiad agos â Chapel y Tabernacl a defnyddir Llyfrgell y dref yn achlysurol.



## Athrawon

Cynhaliwyd cyfarfodydd staff ar nosweithiau Mawrth i drafod materion yn ymwneud â'r cwricwlwm a bywyd bob dydd yr ysgol. Cynhaliwyd sawl gweithgaredd datblygiadol gan gynnwys cyrsiau mewn swydd ar, ddarllen a sillafu, agweddau o TGCh, monitro a thracio cynnydd disgyblion, ysgrifennu Cymraeg ar draws yr ysgol yn ogystal â 'Big Writing' Saesneg, addysg gwerthoedd, sillafu ffoneg Saesneg, Tric a Chlic yn y Gymraeg ynghyd ag addysg i blant Mwy Abl a Thalentog. Cynrychiolodd aelodau o staff yr ysgol mewn amryw o grwpiau clwstwr er mwyn sicrhau ymhellach gysondeb addysgu a safonau a gyflawnwyd mewn meysydd pwnc.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Miss Charlotte Lewis yw ein Cydlynydd Anghenion Arbennig (12/13) a Jane Owen yw ein Llywodraethwr yn gyfrifol am anghenion arbennig. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â rhieni ac amryw o asiantaethau allanol.

CRhAFF Sant Curig PTFA

Cymdeithas o rieni, athrawon a ffrindiau yw CRhAFf Ysgol Sant Curig. Rydym yn 'Grwp o FFrindiau Ysgol Sant Curig' sy'n agored i bawb gan gynnwys gwarchodwyr, gofalwyr, aelodau estynedig y teulu, staff nad sy'n dysgu ac aelodau eraill o'r gymuned leol.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd misol i rannu syniadau a threfnu digwyddiadau a mentrau i godi arian i'n hysgol i hyrwyddo addysg ein plant. Yn ystod y flwyddyn addysgol 2012/2013 rydym wedi codi £3,300 sydd wedi ariannu offer chwarae allanol i blant y dosbarth Derbyn a dyddiaduron i ddisgyblion blwyddyn chwech. Mae'n codi calon i weld cymaint o bobl yn llawn egni ac yn cynnig syniadau gwych a rhoi o'u hamser, cymorth a chefnogaeth. Dewch i'n helpu i barhau â gwaith godidog CrhAFf.



## Adeilad yr Ysgol

Yn parhau o'r llynedd, mae llawer o welliannau wedi eu gwneud i'r ysgol. Isod gweler rhai o uchafbwyntiau 2012/2013 a phleser yw gweld y plant yn mwynhau'r cyfleusterau hynny.

## Gwaith cynnal a chadw'r adeilad

Cafodd ardaloedd dysgu blwyddyn 1 eu gwella yn ogystal â cyfleusterau'r ystafell athrawon. Gosodwyd carpedi a rhoddwyd côt o baent ar sawl ardal ar draws yr Ysgol. Chreuwyd ystafell ar gyfer cefnogi disgyblion ag anawsterau emosiynol yn ogystal ag ystafell gynllunio a pharatoi ar gyfer ein hathrawon. Mae'r tô yn parhau i ollwng uwchben y grisiau mewnol eto eleni ac rydym wedi blaenoriaethu hyn ar gyfer gwelliant. Cawsom wybod gan y Sir y bydd yr Ysgol yn derbyn tô newydd yn ystod y flwyddyn nesaf. Ail osodwyd y nenfwd mewn un ystafell ddosbarth wedi i'r nenfwd gwreiddiol ddisgyn. Gwnaed llawer o waith cynnal a chadw er mwyn gwneud dosbarthiadau'n ddiogel ar draws yr Ysgol. Dechreuwyd ar y gwaith o ddiogelu'r balconi wrth y brif fynedfa.

## Cyfleusterau Tai Bach

Mae'r Ysgol yn cyflawni'r gofynnion statudol ac mae gennym y nifer cywir o dai bach ar gyfer y nifer o blant sydd yn yr Ysgol. Gosodwyd tai bach newydd i fechgyn blwyddyn 1 yn ystod y flwyddyn 2012/2013. Caiff y tai bach eu glanhau yn ddyddiol gan dîm glanhau'r Sir ac rydym yn monitro eu cyflwr yn rheolaidd.

## Yr Ardd Wyllt

Mae gwaith datblygiadol Mrs Meriel Jones ar safle ein gardd wyllt wedi parhau eto eleni, ac mae holl ddisgbylion yr Ysgol wedi mwynhau plannu a pharatoi'r ardd ar gyfer y tymhorau i ddod.

## Cyfleusterau Chwaraeon

Er ein bod wedi gwella cyfleusterau'r maes chwarae, mae'r problemau gyda'r draeniad yn parhau. Serch hyn mae'r plant wrth eu boddau yn defynyddio'r ardal werdd pan fydd y tywydd yn caniatau.




## Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2013/2014

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer Dyddiau Ysgol s |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | End | | |
| Autumn 2012 | Monday 02/09/13 | Monday 28/10/13 | Friday 01/11/13 | Friday 20/12/13 | 75 |
| Spring 2013 | Monday 06/01/14 | Monday 24/02/14 | Friday 28/02/14 | Friday 11/04/14 | 65 |
| Summer 2013 | Monday 28/04/14 | Monday 26/05/14 | Friday 30/05/14 | Monday 21/07/14 | 55 |
| | | | | TOTAL | 195 |